Office for Product
Safety & Standards

Aros yn saff gyda thân gwyllt

Wrth i'r tymor tân gwyllt nesáu, bydd arddangosfeydd tân gwyllt yn goleuo awyr y nos.

Gyda'r lliwiau'n tasgu, mae'n hawdd anghofio y gall tân gwyllt fod yn beryglus os na chaiff ei ddefnyddio'n gywir ac yn gyfrifol. Bydd y cyngor hwn yn helpu pawb i gadw'n saff wrth ddathlu.

Sut i ddefnyddio tân gwyllt yn ddiogel

2021

Prynwch gan werthwyr trwyddedig yn unig

Gwiriwch cyn prynu. Gofalwch brynu tân gwyllt gan fanwerthwr trwyddedig, mewn siop ac ar-lein. Peidiwch â phrynu tân gwyllt gan fanwerthwyr anhysbys ar wefannau yn y cyfryngau cymdeithasol. Mae'n anghyfreithlon i unrhyw un dan 18 oed brynu neu gario tân gwyllt.

Cadwch at ddyddiadau dathlu

Oeddech chi'n gwybod na chewch chi danio tân gwyllt rhwng 11pm a 7am? Yr unig eithriadau yw Noson Tân Gwyllt, pan fo rhaid stopio am ganol nos, a Diwali, Nos Galan a'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd pan fo rhaid stopio am 1am. Mae pobl yn disgwyl tân gwyllt o gwmpas y dyddiadau hyn, felly maen nhw'n debycach o fod wedi cynllunio ymlaen llaw i warchod anifeiliaid anwes ac anifeiliaid eraill. Gall yr amserau fod yn wahanol yn yr Alban. Chwiliwch am **'fireworks'** ar **gov.scot** i gael rhagor o gyngor.

Byddwch ystyriol

Rhowch wybod i'ch cymdogion ymlaen llaw os ydych yn bwriadu tanio **unrhyw** dân gwyllt, er mwyn iddyn nhw wneud trefniadau ar gyfer anifeiliaid anwes a allai gael eu heffeithio. Os ydych yn byw'n agos at geffylau, gofalwch roi gwybod i'w perchnogion ymhell ymlaen llaw. Taniwch eich tân gwyllt mewn safle ymhell oddi wrthyn nhw a'u hanelu i'r cyfeiriad arall. Byddwch ystyriol gan ei bod yn anodd i berchnogion ceffylau eu symud i ffwrdd o dân gwyllt.

Cadwch anifeiliaid anwes yn saff

Cadwch gŵn a chathod i mewn gyda rhywle i guddio. Rhowch ddigon o sarn a deunydd nythu ychwanegol i anifeiliaid bach sy'n byw y tu allan gael twrio iddo.

Peidiwch ag aflonyddu ar fywyd gwyllt, ceffylau neu anifeiliaid fferm

Yn union fel anifeiliaid anwes, gall anifeiliaid gwyllt, ceffylau ac anifeiliaid fferm gael eu heffeithio gan dân gwyllt. Rhowch wybod i ffermydd a stablau gerllaw os ydych chi'n bwriadu defnyddio tân gwyllt. Peidiwch â thanio tân gwyllt os bydd yn tarfu ar gynefinoedd bywyd gwyllt, neu ystlumod ac adar sy'n clwydo.

Dilynwch bob cyfarwyddyd diogelwch

Bydd y blwch tân gwyllt yn sôn am bethau pwysig fel pa mor bell i ffwrdd y mae angen i bobl sefyll ar ôl i'r tân gwyllt gael ei danio. Os nad ydych yn deall y cyfarwyddiadau a'r rhybuddion, peidiwch â defnyddio'r tân gwyllt.

Gwaredwch dân gwyllt yn ddiogel

Gofalwch fod y tân gwyllt wedi'i ddiffodd, trwythwch e mewn dŵr, yna ei roi mewn bag sbwriel ac yn y bin.

Pa dân gwyllt ga i ei ddefnyddio gartref?

Mae gwybodaeth am y categorïau i'w gweld ar y label.

Mae tân gwyllt **categori F1, F2 ac F3** ar werth i'r cyhoedd. Bydd tân gwyllt i ddefnyddwyr yn perthyn i gategori F2 neu F3 gan ddibynnu ar faint o **bellter diogelwch** sydd ei angen. Gofalwch fod gennych ddigon o le i ddefnyddio tân gwyllt yn ddiogel cyn ichi brynu. Dilynwch y Rheolau Tân Gwyllt bob amser.

I gael rhagor o gyngor, ewch i www.gov.uk/fireworks-the-law